

Egwyddorion Arweinyddiaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru:

'Mae Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn amlinellu'r brys am "Arweinyddiaeth ddeinamig sy'n ysgogi newid, yn rhoi grym i eraill ac yn creu'r amodau ar gyfer arloesi a gwella parhaus sy'n gwella ansawdd a gwerth gwasanaethau".

Mae'r pwyslais ar weithlu "llawn cymhelliant a chynaliadwy" o fewn strategaeth ddrafft y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn atgyfnerthu pwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol a thosturiol i les pob aelod o staff, gan amlinellu ein huchelgais "Erbyn 2030 bydd Arweinwyr yn y system Iechyd a Gofal cymdeithasol yn dangos arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol".



Ein bwriad i fabwysiadu arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi'i lywio gan ymchwil sylweddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys gwaith arbenigwyr credadwy Michael West a Chronfa'r Brenin (The Kings Fund). Roedd adborth ar broses ymgynghori strategaeth y gweithlu hefyd yn amlygu'r angen am Arweinyddiaeth Dosturiol ar draws y system, a'i chyswllt hanfodol â diwylliant a lles. Mae'r dull hwn yn gyson â gwledydd eraill y DU sydd hefyd yn gweithio tuag at hyn.

Mae nodweddion allweddol arweinyddiaeth ar y cyd fel a ganlyn:

- Mae'n ymwneud â gallu tîm i Arwain nid yn unig gallu unigolyn.
- Mae hyn yn golygu meithrin gallu arwain pawb, nid dim ond mewn ystyr hierarchaidd.
- Mae ffocws clir ar ysgogi a chefnogi gwella ansawdd ac arloesedd
- Mae hyn yn angen ymddiriedaeth a chontract seicolegol newydd, rhannu grym a gwneud penderfyniadau
- Mae tosturi yn ganolog i'r dull hwn o weithredu – empathi, gwrando, actio a gwerthfawrogi ein pobl

Rydym wedi datblygu'r set ganlynol o egwyddorion yr ydym am eu profi gyda phartneriaid a rhanddeiliaid:

As Compassionate Leaders across Health and Social Care in Wales we will...



Nodir y cyd-destun a'r dystiolaeth ar gyfer hyn yn y ddogfen. Rydym eisiau'r egwyddorion hyn fod yn weladwy yn ein harweinyddiaeth ar draws y system iechyd a gofal yn ei chyfanrwydd.

Ar ôl ei gwblhau, bwriadwn ddod â'r Egwyddorion hyn yn fyw drwy gyfres o gyfweiliadau gydag

Arweinwyr ar bob lefel, a fydd yn disgrifio'r manteision a brofir gan ein staff a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau pan fydd ymagwedd gyfunol a thosturiol tuag at arweinyddiaeth wedi'i wreiddio.

Er mwyn ysgogi'r egwyddorion hyn, caiff fframwaith gweithredu tair blynedd ei ddatblygu gan y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn seiliedig ar y blaenoriaethau y mae pob sector yn eu nodi. Bydd adnoddau, gan gynnwys y fframweithiau gweithredu, ar gael yn ddigidol. Mae dolenni i enghreifftiau o adnoddau arweinyddiaeth a gynhelir ar y Porth arweinyddiaeth wedi'u cynnwys isod er gwybodaeth i chi:

<https://leadershipportal.heiw.wales/go/iejyhd>

<https://leadershipportal.heiw.wales/go/2ni1ad>

Credwn fod yr egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol hyn yn helpu i'n harwain tuag at greu diwylliannau lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddiogel ac yn cael eu grymuso i wella'r gwasanaethau a ddarparant i bobl Cymru yn barhaus. Byddem yn croesawu eich barn ar yr egwyddorion drafft hyn fel rhan o'n proses ymgysylltu, yn benodol mewn perthynas â'r cwestiynau canlynol:

- Ydy'r egwyddorion a'r cwmpawd yn cipio'r pethau cywir?
- Oes unrhyw beth ar goll y byddech chi wedi gobeithio ei weld yno?
- A fyddech yn fodlon cymeradwyo'r egwyddorion hyn ar ran eich sefydliad fel ein bod yn datblygu'r mandad ar gyfer gweithredu?

Mae'r ymgynghoriad ar agor rhwng 1 Mawrth a hanner nos ar 10 Ebrill 2020.

Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniadau ac yn eich gwahodd i anfon eich sylwadau ymlaen drwy e-bostio: HEIW. Leadership.Programme@Wales.NHS.UK

Alex Howells
Prif Weithredwr
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Sue Evans
Prif Weithredwr
Gofal Cymdeithasol Cymru